



Tystysgrif Lefel 4 CIH mewn Tai

Sefydliad Dyfarnu – CIH

Cyflwyniad

Y Sefydliad Tai Siartredig (CIH) yw'r llais annibynnol dros dai, a chartref safonau proffesiynol. Mae ein nod yn syml – darparu'r cyngor, y cymorth a'r wybodaeth sydd eu hangen ar weithwyr proffesiynol ym maes tai, a'u sefydliadau, i fod yn wych. Mae CIH yn elusen gofrestredig ac yn sefydliad nid-er-elw. Mae hyn yn golygu bod yr arian rydym yn ei wneud yn cael ei roi'n ôl i mewn i'r sefydliad ac yn ariannu'r gweithgareddau rydym yn eu cyflawni i gefnogi'r sector tai. Mae gennym aelodaeth amrywiol o bobl sy'n gweithio yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, a hynny mewn 20 o wledydd ar bum cyfandir ar draws y byd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.cih.org.

CIH yw'r sefydliad dyfarnu ar gyfer cymwysterau tai ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu cymwysterau perthnasol a chyfoes o'r safon uchaf i bawb ym maes tai.

Pwrrpas manyleb y cymhwyster yw rhoi gwybodaeth i'r ganolfan am yr unedau sy'n rhan o'r cymhwyster hwn, y gofynion sicrhau ansawdd a'r dulliau asesu sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster, yn ogystal â strwythur y cymhwyster.

Cyfeirnod y cymhwyster yw 601/8136/9
Y dyddiad cychwyn gweithredol yw 1 Rhagfyr 2015
Cod cynllun CIH: 4H09

Cysylltu â ni:

Ar gyfer unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â manyleb y cymhwyster, anfonwch e-bost i accreditation@cih.org

Mae'r cymhwyster yn gymhwyster galwedigaethol lefel 4 ar gyfer y sector tai, sy'n cael ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual), Cymwysterau Cymru a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA).

Amcan y cymhwyster hwn yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth dechnegol i unigolion ar draws ystod eang o arferion tai ar lefel reoli. Mae'r cymhwyster yn edrych ar feysydd polisi tai, y gyfraith ac ymarfer proffesiynol sy'n cefnogi datblygiad eu twf personol eu hunain, a'u hymgysylltiad â dysgu a maes tai.

Nod y cymhwyster yw...

- Darparu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithredu'n effeithiol ar lefel reoli yn y sector tai.
- Paratoi dysgwyr ar gyfer astudiaeth bellach mewn cymwysterau sy'n gysylltiedig â thai ar lefel 5 / lefel israddedig.

Mae'r cymhwyster yn addas i ddysgwyr...

- sy'n gweithio neu'n byw yn y DU ac Iwerddon,
- sydd mewn rôl oruchwyllo neu reoli ym maes tai, neu'n anelu at hynny,
- sydd eisoes â chymhwyster lefel 3 a/neu brofiad o weithio ym maes tai, a hynny ar lefel oruchwyllo / rheoli yn ddelfrydol.

Gofynion mynediad

Nid yw CIH fel sefydliad dyfarnu (CIH AO) yn pennu gofynion mynediad. Mae CIH AO yn argymhell y bydd y dysgwr, er mwyn cyflawni'r cymhwyster;

- yn meddu ar y potensial a'r cyfleoedd i ennill y cymhwyster
- yn gweithio ym maes tai neu ddiwydiant sy'n gysylltiedig â thai, a hynny ar lefel oruchwyllo neu reoli yn ddelfrydol
- wedi cwblhau Tystysgrif Lefel 3 CIH mewn Ymarfer Tai neu gymhwyster cyfatebol/cyfwerth.

Mae rhagor o fanylion am y lefel y mae angen i'r dysgwr allu ei chyrraedd ar gael yn yr adran ar ddisgrifyddion lefel 4.

Llwybrau cynnydd

Efallai y bydd y dysgwr yn dymuno camu ymlaen i ddysgu pellach:

- drwy ddefnyddio'r credyd a enillwyd yn Nhystysgrif Lefel 4 CIH mewn Ymarfer Tai, ar y cyd â dysgu pellach i gyflawni *Diploma Lefel 5 CIH mewn Tai*.
- ar lefel 5 / israddedig – os oes gan y dysgwr brofiad helaeth ym maes tai a'i fod eisoes wedi astudio ar lefel 3 neu 4, efallai y bydd yn gallu symud ymlaen i [gwrs israddedig mewn prifysgol](#).

Mae'r ddau lwybr cynnydd yn gyfle i ennill statws Aelod Siartredig CIH.



Ymarferydd Ardystiedig

Bydd dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus yn gymwys i gael aelodaeth 'ymarferydd ardystiedig' o CIH.

Disgrifyddion Lefel 4

Mae'r disgrifyddion lefel 4 yn dangos y lefel y mae'n rhaid i ddysgwr fod yn gweithio arni er mwyn ennill y cymhwyster. Ni ddylid eu defnyddio fel meini prawf marcio, ond gallir eu defnyddio fel offeryn asesu cychwynnol i bennu lefel y dysgwyr.

Disgrifydd gwybodaeth (mae'r deiliad...)	Disgrifydd sgiliau (mae'r deiliad yn gallu...)
Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth ymarferol, ddamcaniaethol neu dechnegol o bwnc neu faes gwaith i fynd i'r afael â phroblemau sydd wedi'u diffinio'n dda ond yn gymhleth neu'n anarferol.	Nodi, addasu a defnyddio sgiliau gwybyddol ac ymarferol priodol i lywio camau gweithredu, ac i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gymhleth ac yn anarferol, ac sydd fel arfer wedi'u diffinio'n eithaf da.
Yn gallu dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth a syniadau perthnasol.	Adolygu pa mor effeithiol a phriodol yw dulliau, ffyrdd o weithredu a chanlyniadau.
Yn ymwybodol o natur a hyd a lled bras y maes astudio neu'r maes gwaith.	
Yn ymwybodol, ar sail gwybodaeth, o wahanol safbwyntiau neu ddulliau gweithredu yn y maes astudio neu'r maes gwaith.	

I gael cymhariaeth o lefelau cymwysterau ar draws y DU, gweler http://www.sqa.org.uk/files_ccc/QualificationsCanCrossBoundaries.pdf

Prentisiaeth

Mae'r unedau o'r cymhwyster wedi cael eu cyfeirio at y Safon Prentisiaeth: Rheoli Tai / Eiddo Uwch, Lloegr. Gweler Atodiad 1, tudalennau 29-31.

Strwythur y cymhwyster



**Chartered
Institute of
Housing**
Awarding
organisation

Teitl y cymhwyster: Tystysgrif Lefel 4 CIH mewn Tai

Rhaid i ddysgwyr gyflawni o leiaf 36 credyd er mwyn ennill y cymhwyster, a hynny o 4 uned orfodol a 2 uned ddewisol.

90 awr yw'r oriau dysgu dan arweiniad sy'n cael eu hargymell ar gyfer y cymhwyster hwn. Mae CIH AO yn disgwyl y gall canolfannau gyflwyno'r cymhwyster mewn mwy neu lai o amser yn unol â'u cynllun y mae CIH AO wedi'i gymeradwyo cyn dechrau'r cwrs. Gellir cyflwyno'r unedau mewn unrhyw drefn. 360 awr fydd cyfanswm yr oriau cymhwyso.

Dyfernir y cymhwyster ar sail Pasio / Cyfeirio / Methu.

**Mae'r cymhwyster yn cynnwys y 4 uned orfodol ganlynol,
Rhaid cyflawni 24 credyd o'r grŵp hwn:**

Teitl yr uned	Credydau	Lefel	Tudalen
<u>Cyllid ar gyfer tai</u> Rhif yr uned L/507/9241	6	4	11
<u>Cyfraith tai</u> Rhif yr uned R/507/9161	6	4	12
<u>Polisi tai</u> Rhif yr uned Y/507/9162	6	4	13
<u>Sgiliau ymarfer proffesiynol ar gyfer maes tai</u> Rhif yr uned F/507/9169	6	4	14

Mae'r cymhwyster yn cynnwys yr unedau dewisol canlynol,
Rhaid cyflawni 12 credyd o'r grŵp hwn:



**Chartered
Institute of
Housing**
Awarding
organisation

Teitl yr uned	Credydau	Lefel	Tudalen
<u>Adeiladau, cymunedau a'r amgylchedd</u> Rhif yr uned M/507/9250	6	4	15
<u>Gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes tai</u> Rhif yr uned F/507/9172	6	4	16
<u>Cyfranogiad preswylwyr mewn gwasanaethau tai</u> Rhif yr uned T/507/9251	6	4	17
<u>Cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes tai</u> Rhif yr uned F/507/9253	6	4	18
<u>Gwasanaethau rheoli tai</u> Rhif yr uned A/507/9266	6	4	19
<u>Anghenion tai, y galw a'r cyflenwad</u> Rhif yr uned J/507/9254	6	4	20
<u>Darparu gwasanaethau cymorth tai ar gyfer iechyd a lles</u> Rhif yr uned L/507/9255	6	4	21
<u>Rheoli pobl a newid</u> Rhif yr uned R/507/9256	6	4	22
<u>Gweithio mewn partneriaeth ym maes tai</u> Rhif yr uned Y/507/9257	6	4	23
<u>Sgiliau ymchwil ar gyfer tai</u> Rhif yr uned D/507/9258	6	4	24
<u>Strategaethau ar gyfer hybu lles a byw'n annibynnol</u> Rhif yr uned H/507/9259	6	4	25
<u>Y fframwaith ar gyfer cynllunio a datblygu</u> Rhif yr uned Y/507/9260	6	4	26

Cymeradwyaeth i ddarparu'r cymhwyster

A chithau'n ganolfan sydd wedi'i chymeradwyo gan CIH AO, RHAIID i chi fod wedi eich cymeradwyo gan CIH AO i ddarparu'r cymhwyster cyfan. Ni chewch dechrau darparu ac ni fydd cofrestriadau dysgwyr yn cael eu derbyn nes bydd y broses hon wedi'i chwblhau.

Cofrestru dysgwyr a ffioedd

Cyn darparu'r cymhwyster, RHAIID i chi gofrestru pob dysgwr gyda CIH AO. Mae ffi'n daladwy ar gyfer pob dysgwr. Cyfrifoldeb y ganolfan yw talu'r ffioedd hyn a byddwch yn cael anfoneb am y swm gofynnol ar ôl i ni gael y ffurflenni cofrestru. Mae'r rhestr ffioedd ar gael ar ein gwefan drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<http://www.cih.org/ao/centrefees>

Bydd pob dysgwr yn cael cynnig aelodaeth myfyrwyr CIH am ddim drwy gydol y cwrs.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Cafodd ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth eu gwneud wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn i hybu mynediad ac i leihau rhagfarn. Cyfrifoldeb y canolfannau yw sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu gwneud fel rhan o'r gwaith o ddarparu ac asesu'r cymhwyster hwn.

Byddai CIH AO yn disgwyl i gydraddoldeb ac amrywiaeth gael eu hintegreiddio yn y broses ddarparu ar gyfer pob canlyniad dysgu, hyd yn oed lle nad oes meini prawf asesu penodol ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Rhoi canlyniadau dysgu a meini prawf asesu mewn cyd-destun

Mae CIH AO yn disgwyl i ganolfannau roi'r gwaith o ddarparu ac asesu unedau mewn cyd-destun yn unol ag amgylchiadau lleol a sectoraidd y grŵp dysgwyr maen nhw'n darparu ar eu cyfer. Er enghraifft, byddai cwestiwn sy'n ymwneud â'r gyfraith yn cael ei gymhwyso i gyfraith y wlad lle mae'r grŵp dysgwyr yn gweithredu.

Gofynion o ran cymhwysedd galwedigaethol staff

Profiad o'r canlynol:

- Gweithio yn y diwydiant tai, ar lefel rheoli yn ddelfrydol.
- Gweithio yn y diwydiant penodol y mae cynnwys yr uned (lle mae hwn yn faes tai arbenigol neu bwnc nad yw'n benodol i faes tai) yn rhoi sylw iddo.
- Darparu cymwysterau galwedigaethol.
- Addysgu, asesu neu ddilysu fel y bo'n briodol.



Cymwysterau

- Cymhwyster tai ar lefel sy'n uwch na lefel y cymhwyster/unedau sydd i'w darparu.
A/neu
- Gradd neu gymhwyster ar lefel gradd mewn maes cytras a/neu gymhwyster proffesiynol perthnasol

Gofynion cymhwyso penodol i'r rôl:

- **Athrawon/Tiwtoriaid:**
Cymhwyster addysgu rheoledig neu gyfatebol.
- **Bydd angen i Aseswyr:**
Mae asesu yn weithgaredd y gellir ei gyflawni gan unigolyn penodol neu fel rhan o rôl ehangach unigolyn, e.e. Goruchwyliwr, rheolwr, tiwtor. Rhaid i bob asesydd feddu ar gymhwyster asesu, e.e. Dyfarniadau Asesydd, Dyfarniadau/unedau A1/2, D32/33) neu fod yn gweithio tuag at hyn.
- **Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol:**
Mae sicrhau ansawdd mewnol yn weithgaredd y gellir ei gyflawni gan unigolyn penodol neu fel rhan o rôl ehangach unigolyn. Rhaid i bob Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol feddu ar gymhwyster Sicrhau Ansawdd Mewnol, e.e. Dyfarniadau Sicrhau Ansawdd Mewnol, Dyfarniad/unedau V1, D34) neu fod yn gweithio tuag at hyn.

Mae rhestr o gymwysterau cyfredol ar gael ar y cofrestrau canlynol:

- Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon: <http://register.ofqual.gov.uk>
- Yr Alban: <http://scqf.org.uk/the-framework/search-database/>

Rhaid i Aseswyr a Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol dan Hyfforddiant ennill cymhwyster Asesydd/Sicrhau Ansawdd Mewnol perthnasol o fewn blwyddyn i ddechrau yn y rôl. Rhaid i'r holl staff heb gymhwyso sy'n asesu gael 100% o'u gwaith wedi'i ddilysu gan asesydd sydd wedi cymhwyso.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus mewn addysgu, asesu, dilysu a'r diwydiant tai.

Asesu

Rhaid i ganolfannau gyfeirio at lawlyfr Asesu AO CIH cyn datblygu eu cyrsiau a'u hasesiadau cysylltiedig.



Pwrpas asesu yw gwneud dyfarniad cyson a dilys bod dysgwyr wedi cyrraedd y safon sy'n ofynnol i ennill y cymhwyster. Mae'r meini prawf asesu ym mhob uned yn dangos y dystiolaeth y bydd angen i ddysgwyr ei chynhyrchu er mwyn dangos eu bod wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu.

Mae'r holl asesiadau ar gyfer y cymhwyster yn cael eu llunio gan y ganolfan, eu marcio gan y ganolfan ac yna mae'n rhaid sicrhau eu hansawdd yn fewnol (gan y ganolfan), a'u cymedrolï'n allanol (gan CIH AO).

Egwyddorion asesu

Wrth lunio a darparu asesiadau, rhaid dilyn yr egwyddorion canlynol:

- Dilysrwydd – Mae asesiad yn ddilys os yw'n glir ac yn ddiamwys, 'yn gwneud beth mae'n ei ddweud ar y tun'; os yw'n ateb y gofyn a bod canlyniadau'r asesiad yn bodloni eu dibenion arfaethedig.
- Dibynadwyedd – Mae asesiad yn ddibynadwy os nad yw siawns yn dylanwadu ar ei ganlyniadau, a bod y broses asesu'n cynhyrchu canlyniadau a fyddai'n cael eu hatgynhyrchu pe bai'r asesiad yn cael ei ailadrodd.
- Cymaroldeb – Canlyniadau asesu y gellir eu cymharu mewn safon rhwng asesiadau mewn cymhwyster, rhwng cymwysterau tebyg, gyda sefydliadau dyfarnu eraill, a dros amser.
- Gallu i reoli – Mae'r asesiad yn hawdd ei reoli ac mae'r broses reoli'n un sy'n gosod gofynion rhesymol ar ganolfannau a dysgwyr. Bydd rhesymoldeb yn seiliedig ar raddfa'r broses asesu wedi'i chydbwyso gan ddefnyddioldeb y canlyniadau.
- Lleihau rhagfarn – sy'n ymwneud â sicrhau nad yw asesiad yn cynhyrchu canlyniadau afresymol o niweidiol i ddysgwyr sy'n rhannu nodwedd gyffredin (ac) sy'n ymwneud â thegwch i bob dysgwr, a dyletswyddau cydraddoldeb statudol.

Asesiadau a luniwyd gan y ganolfan

Agwedd CIH AO at asesu cymwysterau yw galluogi canolfannau i lunio'r asesiadau. Gwneir hyn er mwyn cael asesiad priodol sy'n adlewyrchu profiad dysgu unigryw ac amgylchiadau lleol grwpiau dysgwr penodol.

Disgwylir i ganolfannau greu strategaethau asesu sy'n diwallu anghenion eu grwpiau dysgwyr yn uniongyrchol ac sy'n ystyried gofynion cyflogwyr lleol.



Dulliau Asesu

Caniateir y dulliau asesu canlynol ar gyfer asesu'r cymhwyster:

- Gwaith cwrs
- Portffolio tystiolaeth
- E-asesu
- Aseiniad/arddangosiad ymarferol

Ystyriaethau arbennig ac addasiadau rhesymol

Mae CIH AO yn mynnu bod canolfannau'n cydymffurfio â pholisi ystyriaethau arbennig ac addasiadau rhesymol CIH.

Mae addasiad rhesymol yn golygu unrhyw gam gweithredu sy'n helpu i leihau effaith anabledd neu anhawster sy'n rhoi'r dysgwr dan anfantais sylweddol yn y sefyllfa asesu. Ni ddylai addasiadau rhesymol effeithio ar ddibynadwyedd a dilysrwydd y canlyniadau asesu. Mae'n rhaid i'r ganolfan roi'r addasiadau i'r asesiad ar waith a rhoi gwybod i CIH AO am hyn.

Gellir rhoi ystyriaeth arbennig i ddysgwr yn dilyn asesiad wedi'i drefnu, er enghraifft;

- Mae'r dysgwr yn bresennol ar gyfer yr asesiad ond gallai fod wedi bod o dan anfantais oherwydd salwch, anaf neu amgylchiadau anffafriol dros dro a gododd yn ystod neu'n agos at adeg asesiad.
- Mae'r dysgwr yn colli rhan o'r asesiad o ganlyniad i amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

Os yw'r ganolfan yn cymeradwyo/gwrthod ystyriaeth arbennig (fel addasiad asesiad bach i farc y dysgwr ar ôl asesiad, neu addasiad i ddyddiad cyflwyno asesiad), rhaid iddi gadw tystiolaeth o'i phenderfyniad er mwyn i'r cymedrolwr allanol graffu arni.

Sicrhau ansawdd allanol

Mae'r system sicrhau ansawdd allanol yn nodwedd allweddol o'r trefniadau sicrhau ansawdd ar gyfer CIH AO. Mae'r Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol a'r cymedrolwyr yn chwarae rôl hollbwysig yn sicrhau bod pob unigolyn sy'n meddu ar dystysgrif cymhwyster CIH AO wedi cyrraedd safon sy'n cael ei derbyn yn genedlaethol. Rhaid i'r cymedrolwr sicrhau bod digon o dystiolaeth ar gael i ddangos bod yr egwyddorion sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal.

Bydd CIH AO yn penodi Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol a chymedrolwr ar gyfer pob canolfan gymeradwy i fonitro'r gwaith sicrhau ansawdd yn y ganolfan. Ni ddylid dechrau darparu'r cymhwyster nes bod y strategaeth asesu a'r briff(iau) asesu wedi cael eu cymeradwyo gan CIH AO. Yn ystod y cwrs, bydd y cymedrolwr yn asesu sampl o'r asesiadau a bydd y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol yn cynnal ymweliad adolygu ansawdd bob blwyddyn.



I gael rhagor o wybodaeth am sicrhau ansawdd, edrychwch ar lawlyfr y ganolfan a'r polisi sancsiynau.

Dogfennau perthnasol eraill

Dyma restr o ddogfennau eraill y mae'n rhaid i'ch canolfan fod yn gyfarwydd â nhw mewn perthynas â dylunio, darparu, asesu a sicrhau ansawdd cymhwyster CIH AO.

- Gweithdrefn apelio
- Llawlyfr asesu
- Cytundeb Canolfan
- Llawlyfr canolfan
- Polisi cwynion
- Polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau
- Polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Polisi camymarfer
- Marchnata cymwysterau CIH
- Polisi cadw cofnodion
- Polisi sancsiynau
- Polisi ystyriaethau arbennig ac addasiadau rhesymol
- Polisi cydnabod dysgu blaenorol
- Ffurflen gais ar gyfer cymeradwyo/hysbysu newid cwrs canolfan

Mae rhagor o wybodaeth a dogfennau ar gael ar safle Moodle CIH i Ganolfannau.



Cyllid ar gyfer tai

Lefel yr uned:	4
Gwerth credyd yr uned:	6
Cyfeirnod yr uned:	L/507/9241
Cyfeirnod CIH AO:	H414
Statws yr uned:	Gorfodol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth o sut mae maes tai'n cael ei ariannu ar draws deiliadaethau a sut mae'n gweithredu. Bydd y dysgwr yn deall sut mae maes tai'n cael ei ariannu ar draws deiliadaethau a sut mae hyn yn cysylltu â pholisi.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall effaith polisi cyllido ar ddarpariaeth tai.	1.1 Nodi'r cymorthdaliadau i ddefnyddwyr a chynhyrchwyr ar gyfer pob math o ddaliadaeth tai. 1.2 Dadansoddi effaith y cymorthdaliadau ar y cyflenwad a'r galw am dai yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
2. Deall incwm a gwariant sefydliadau tai.	2.1 Cymharu'n feirniadol yr incwm a'r gwariant ar gyfer gwahanol fathau o sefydliadau tai. 2.2 Crynhoi'r cyfyngiadau sy'n effeithio ar incwm a gwariant sefydliad tai.
3 Deall dulliau sefydliad tai o gyllidebu a chynhyrchu rhagolygon cyllid.	3.1 Trafod dulliau cyllidebu a chynhyrchu rhagolygon cyllid yng nghyswllt sefydliadau tai. 3.2 Cymhwyso dull i faes sy'n ymwneud â chyllid tai.



Cyfraith tai

Lefel yr uned: 4
Gwerth credyd yr uned: 6
Cyfeirnod yr uned: R/507/9161
Cyfeirnod CIH AO: H402
Statws yr uned: Gorfodol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o'r system gyfreithiol mewn cysylltiad â thai yn y wlad lle maen nhw'n gweithredu neu y gallent weithredu. Mae'n edrych ar y gyfraith mewn cysylltiad â landlordiaid a thenantiaid, ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr edrych ar y defnydd o'r gyfraith mewn cysylltiad ag ymarfer tai.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall y fframwaith cyfreithiol mewn cyd-destun tai.	1.1 Crynhoi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y wlad y mae'n gweithredu ynddi. 1.2 Esbonio sut gellir herio penderfyniadau sy'n ymwneud â thai yn y llysoedd, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth.
2. Deall y ddeddfwriaeth allweddol mewn cysylltiad â landlordiaid a thenantiaid.	2.1 Esbonio'r ddeddfwriaeth allweddol mewn cysylltiad â landlordiaid a thenantiaid. 2.2 Crynhoi'r gwahaniaethau yn y ddeddfwriaeth hon a deddfwriaeth gwlad arall.
3. Deall sut mae'r gyfraith yn berthnasol i faes ymarfer tai.	3.1. Edrych ar y defnydd o'r gyfraith mewn maes ymarfer tai. 3.2. Asesu'r gwahaniaethau yn y defnydd o'r gyfraith mewn cysylltiad â maes ymarfer tai o'i gymharu â'r defnydd mewn gwlad arall.



Polisi tai

Lefel yr uned:	4
Gwerth credyd yr uned:	6
Cyfeirnod yr uned:	Y/507/9162
Cyfeirnod CIH AO:	H403
Statws yr uned:	Gorfodol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o bolisi tai yn y wlad lle maen nhw'n gweithredu neu y gallent weithredu drwy edrych ar ei ddatblygiad hanesyddol, a'r berthynas rhwng gwahanol gyrff sy'n llunio polisiau a'u prosesau llunio polisiau. Mae hefyd yn anelu at ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o sut mae polisiau'n cael eu rhoi ar waith.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall y broses polisi mewn cyd-destun tai.	1.1 Nodi'r prif ffactorau sbarduno yng nghyswllt datblygu polisi tai. 1.2 Nodi'r cyfranogwyr allweddol yn y broses llunio polisi. 1.3 Esbonio sut maen nhw'n dylanwadu ar bolisi tai ac yn ei lunio. 1.4 Esbonio sut maen nhw'n ystyried materion sy'n ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth.
2. Deall datblygiad hanesyddol polisi tai cenedlaethol.	2.1 Crynhoi datblygiad hanesyddol polisi tai cenedlaethol.
3. Deall sut mae polisi tai yn effeithio ar ymarfer.	3.1 Gwerthuso effaith polisi tai cenedlaethol ar ymarfer. 3.2 Archwilio sut mae effaith polisi tai cenedlaethol yn amrywio ar lefel leol.



Sgiliau ymarfer proffesiynol ar gyfer maes tai

Lefel yr uned:	4
Gwerth credyd yr uned:	6
Cyfeirnod yr uned:	F/507/9169
Cyfeirnod CIH AO:	H401
Statws yr uned:	Gorfodol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw cyflenwi dysgwyr â'r ddealltwriaeth a'r sgiliau i gamu ymlaen ar lefel rheoli ym maes tai. Mae'n gwneud hynny drwy eu helpu i fod yn 'ymarferwyr myfyriol' i raddau mwy. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd cysylltu sgiliau a pherfformiad unigolion ag effeithiolrwydd y sefydliad yn ei gyfanrwydd, a bod yn rhagweithiol yn eu datblygiad proffesiynol eu hunain.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall y cysyniadau o fod yn aelod o broffesiwn a gweithredu'n broffesiynol.	1.1 Gwahaniaethu rhwng bod yn aelod o broffesiwn a gweithredu'n broffesiynol.
2. Deall y sgiliau sydd eu hangen i fod yn weithiwr proffesiynol ym maes tai.	2.1 Dadansoddi ystod o sgiliau allweddol sydd eu hangen i fod yn weithiwr proffesiynol ym maes tai. 2.2 Esbonio ystyr 'proffesiynoldeb' mewn cyddestun tai gan gyfeirio at God Ymddygiad a Chod Moeseg CIH.
3. Gallu asesu eich perfformiad proffesiynol eich hun.	3.1 Esbonio'r cysyniad o ymarfer myfyriol gan gyfeirio at theori. 3.2 Defnyddio technegau ymarfer myfyriol yn eich perfformiad eich hun. 3.3 Esbonio sut mae eich perfformiad eich hun yn cael ei fonitro. 3.4 Gwerthuso sut mae eich perfformiad eich hun yn effeithio ar berfformiad y sefydliad.
4. Gallu rheoli eich datblygiad proffesiynol personol.	4.1 Defnyddio cynllun datblygu proffesiynol i gynllunio eich hyfforddiant a'ch datblygiad proffesiynol eich hun i ateb heriau nawr ac yn y dyfodol.



Adeiladau, cymunedau a'r amgylchedd

Lefel yr uned:	4
Gwerth credyd yr uned:	6
Cyfeirnod yr uned:	M/507/9250
Cyfeirnod CIH AO:	H415
Statws yr uned:	Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw cyflwyno dysgwyr (annhechnegol) i egwyddorion adeiladu a sut mae adeiladau'n effeithio ar gymunedau, a'r amgylchedd ehangach.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall prif gamau'r broses adeiladu tai.	1.1 Crynhoi prif gamau'r broses adeiladu tai.
2. Deall effaith cartrefi presennol a newydd ar yr amgylchedd ehangach, a strategaethau i leihau'r effaith hon.	2.1 Dadansoddi effaith cartrefi presennol ar yr amgylchedd ehangach. 2.2 Dadansoddi effaith cartrefi newydd ar yr amgylchedd ehangach. 2.3 Gwerthuso strategaethau i leihau effaith andwyol cartrefi presennol a newydd ar yr amgylchedd ehangach.
3. Deall y ffactorau sy'n sbarduno gwelliannau ym mherfformiad amgylcheddol adeiladau.	3.1 Crynhoi'r polisi a'r fframwaith rheoleiddio presennol mewn perthynas ag arferion adeiladu amgylcheddol gynaliadwy. 3.2 Crynhoi'r pwysau amgylcheddol ac economaidd i wella perfformiad amgylcheddol adeiladau.
4. Deall y berthynas rhwng pobl a lleoedd.	4.1 Gwerthuso effaith cartrefi presennol a newydd ar y gymuned leol ehangach. 4.2 Gwerthuso'n feirniadol yr egwyddorion o greu cymunedau cynaliadwy/llunio lleoedd. 4.3 Cymharu'n feirniadol yr agweddau at gyfranogiad tenantiaid a chymunedau.



Gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes tai

Lefel yr uned:	4
Gwerth credyd yr uned:	6
Cyfeirnod yr uned:	F/507/9172
Cyfeirnod CIH AO:	H404
Statws yr uned:	Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi gwybodaeth i'r dysgwr am ddulliau gweithredu gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes tai. Ei nod yw ystyried rôl gwasanaeth effeithiol i gwsmeriaid o ran cynllunio, darparu a gwella gwasanaethau tai. Sut mae defnyddio adborth gan gwsmeriaid i ddatblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sy'n cael eu harwain gan anghenion.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall y berthynas rhwng gwasanaeth da i gwsmeriaid, darparu gwasanaethau yn effeithiol a gwelliant parhaus.	1.1 Esbonio rôl gwasanaeth effeithiol i gwsmeriaid o ran datblygu, darparu a gwella gwasanaethau tai. 1.2 Esbonio'r cysyniad o welliant parhaus. 1.3 Gwerthuso safonau a mesurau sy'n anelu at ddatblygu diwylliant o ganolbwyntio ar gwsmeriaid a gwelliant parhaus.
2. Deall sut mae datblygu a darparu gwasanaeth effeithiol i gwsmeriaid ym maes tai.	2.1 Esbonio sut mae datblygu systemau, polisïau a gweithdrefnau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. 2.2 Deall rôl y rheolwr a'r staff o ran datblygu a chynnal diwylliant sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.
3. Deall sut mae defnyddio adborth gan gwsmeriaid i wella'r gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau.	3.1. Gwerthuso systemau ar gyfer monitro, dadansoddi ac ymateb i adborth cadarnhaol a negyddol gan gwsmeriaid. 3.2. Dadansoddi themâu cyffredin sy'n deillio o adborth gan gwsmeriaid a sut gellir defnyddio'r rhain i ddatblygu, darparu a gwella gwasanaethau.

Cyfranogiad preswylwyr mewn gwasanaethau tai



**Chartered
Institute of
Housing**
Awarding
organisation

Lefel yr uned: 4
Gwerth credyd yr uned: 6
Cyfeirnod yr uned: T/507/9251
Cyfeirnod CIH AO: H411
Statws yr uned: Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw cyflenwi'r dysgwr â'r wybodaeth i ddeall damcaniaethau cyfranogiad preswylwyr, pam mae cyfranogiad preswylwyr yn bwysig a sut mae'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau tai.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall y ffactorau sy'n sbarduno cyfranogiad preswylwyr ym maes tai.	1.1 Gwerthuso damcaniaethau ynghylch cyfranogiad preswylwyr. 1.2 Trafod effaith unrhyw ofynion cyfreithiol a/neu reoleiddiol ar gyfranogiad preswylwyr. 1.3 Trafod yn feirniadol manteision cyfranogiad preswylwyr.
2. Deall effaith cyfranogiad preswylwyr ar ddarpariaeth gwasanaethau tai.	2.1 Archwilio'r gwahanol fathau o gyfranogiad preswylwyr mewn sefydliad tai, a hyd a lled y cyfranogiad hwnnw. 2.2 Gwerthuso effeithiolrwydd pob dull cyfranogiad preswylwyr. 2.3 Trafod effaith dau ddull gwahanol ar ddarpariaeth gwasanaeth tai.



Cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes tai

Lefel yr uned: 4
Gwerth credyd yr uned: 6
Cyfeirnod yr uned: F/507/9253
Cyfeirnod CIH AO: H405
Statws yr uned: Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o bwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddarparu gwasanaethau tai ac yn eu sefydliad eu hunain. Byddant yn datblygu ymwybyddiaeth drylwyr a beirniadol o'r cysyniadau, y materion a'r arferion da cysylltiedig.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall pwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddarparu gwasanaethau tai.	1.1 Cymharu prif gysyniadau cydraddoldeb ac amrywiaeth. 1.2 Esbonio'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddarparu gwasanaethau tai. 1.3 Gwerthuso effaith defnyddio dull cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddarparu gwasanaeth tai.
2. Deall sut mae hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yng nghyd-destun eich sefydliad eich hun.	2.1 Dadansoddi arferion cyfredol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn sefydliad tai. 2.2 Esbonio sut mae hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cefnogi nodau busnes a chymdeithasol sefydliadau tai. 2.3 Llunio cynllun i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn sefydliad penodol.



Gwasanaethau rheoli tai

Lefel yr uned:	4
Gwerth credyd yr uned:	6
Cyfeirnod yr uned:	A/507/9266
Cyfeirnod CIH AO:	H416
Statws yr uned:	Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi gwybodaeth i'r dysgwr am swyddogaethau allweddol gwasanaethau rheoli tai. Bydd dysgwyr hefyd yn ystyried dulliau o ran sut mae unigolion yn cael gafael ar dai.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall y sail ar gyfer darparu gwasanaethau tai.	1.1 Esbonio gwahanol ddulliau o ddarparu tai, h.y. gosod eiddo a rhanberchnogaeth. 1.2 Nodi cyfrifoldebau cyfreithiol o ran darparu tai, h.y. digartrefedd.
2. Deall prif swyddogaethau rheoli tai.	2.1 Dadansoddi prif swyddogaethau rheoli tai h.y. gwneud y mwyaf o incwm, gwneud y defnydd gorau o stoc bresennol, gosod eiddo, eiddo gwag, rheoli ystadau, atgyweirio a chynnal a chadw, mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, a rheoli tenantiaeth. 2.2 Cymharu modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau rheoli tai yn feirniadol.
3. Deall sut mae unigolion yn cael gafael ar dai.	3.1 Gwerthuso'r gwahanol ddulliau o ddylunio a darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai. 3.2 Nodi'r ffynonellau cymorth a chynghor sydd ar gael i unigolion o ran cael gafael ar dai.



Anghenion tai, y galw a'r cyflenwad

Lefel yr uned:	4
Gwerth credyd yr uned:	6
Cyfeirnod yr uned:	J/507/9254
Cyfeirnod CIH AO:	H406
Statws yr uned:	Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi gwybodaeth i'r dysgwr am broffil demograffig y wlad y mae'n gweithredu ynddi a deall yr effaith y mae hyn, a ffactorau economaidd-gymdeithasol, yn ei chael ar anghenion tai, y galw a'r cyflenwad. Byddant hefyd yn edrych ar ystod o ffactorau sy'n dylanwadu ar strategaethau'r farchnad dai leol.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall proffil demograffig y wlad yr ydych yn gweithredu ynddi a'i effaith ar anghenion tai, ac ar y galw am dai.	1.1. Dadansoddi proffil demograffig yr ardal leol a'i gysylltu â demograffeg genedlaethol. 1.2. Gwahaniaethu rhwng y galw am dai ac anghenion tai. 1.3. Esbonio'r berthynas rhwng proffil demograffig, anghenion tai, a'r galw am dai.
2. Deall y berthynas rhwng y galw am dai a'r cyflenwad tai ar draws pob deiliadaeth yn y wlad yr ydych yn gweithredu ynddi.	2.1. Trafod y ffactorau sy'n dylanwadu ar y cyflenwad tai, y galw am dai ac anghenion tai ar draws pob math o ddeiliadaeth yn y wlad yr ydych yn gweithredu ynddi.
3. Deall yr ystod o ffactorau sy'n dylanwadu ar strategaethau'r farchnad dai leol.	3.1 Gwerthuso'r dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i ddeall eu marchnadoedd tai lleol. 3.2 Gwerthuso effaith polisïau a mentrau cenedlaethol ar strategaethau'r farchnad dai leol.

Darparu gwasanaethau cymorth tai ar gyfer iechyd a lles



**Chartered
Institute of
Housing**
Awarding
organisation

Lefel yr uned: 4
Gwerth credyd yr uned: 6
Cyfeirnod yr uned: L/507/9255
Cyfeirnod CIH AO: H412
Statws yr uned: Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw cyflenwi'r dysgwr â'r wybodaeth sydd ei hangen arno i ddarparu gwasanaethau cymorth tai ar gyfer iechyd a lles.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall rôl gweithio mewn partneriaeth o ran cynllunio cymorth a sicrhau canlyniadau cadarnhaol gan wasanaethau cymorth tai.	1.1 Gwerthuso rolau a chyfrifoldebau unigolion a sefydliadau sy'n rhan o'r gwaith o roi cymorth i unigolion. 1.2 Crynhoi'r gwasanaethau cymorth tai allweddol ar gyfer iechyd a lles. 1.3 Asesu'r gofynion ar gyfer datblygu perthynas waith effeithiol â chyd-weithwyr mewn sefydliadau eraill. 1.4 Asesu effeithiolrwydd trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn feirniadol.
2. Deall rôl cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cymorth tai ar gyfer byw'n annibynnol.	2.1 Disgrifio'r cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaethau gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cymorth ar gyfer byw'n annibynnol. 2.2 Gwerthuso effaith cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau cymorth ar gyfer byw'n annibynnol.
3. Deall sut mae gwella gwasanaethau cymorth tai yn barhaus.	3.1 Gwerthuso effeithiolrwydd prosesau cynllunio cymorth a phrosesau asesu risg ac anghenion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. 3.2 Asesu goblygiadau prosesau cynllunio cymorth a phrosesau asesu risg ac anghenion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddarpariaeth gwasanaethau.



Rheoli pobl a newid

Lefel yr uned:	4
Gwerth credyd yr uned:	6
Cyfeirnod yr uned:	R/507/9256
Cyfeirnod CIH AO:	H407
Statws yr uned:	Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw rhoi gwybodaeth i'r dysgwr am sut mae rheoli pobl a newid.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall y swyddogaethau adnoddau dynol allweddol a ddefnyddir i reoli pobl.	1.1 Crynhoi ystod o swyddogaethau adnoddau dynol a ddefnyddir i reoli pobl. 1.2 Gwerthuso enghraifft o arfer da mewn cysylltiad â swyddogaeth adnoddau dynol allweddol a ddefnyddir i reoli pobl.
2. Deall egwyddorion rheoli timau.	2.1 Crynhoi damcaniaethau ar gyfer rheoli timau. 2.2 Esbonio pwysigrwydd gwaith tîm. 2.3 Trafod sut gellir datrys gwrthdaro mewn timau. 2.4 Gwerthuso dulliau o reoli gweithlu gwasgaredig yn effeithiol.
3. Deall sut mae rheoli newid.	3.1. Adolygu damcaniaethau a modelau ar gyfer rheoli newid. 3.2. Gwerthuso sut mae newid penodol wedi cael ei reoli mewn sefydliad tai.



Gweithio mewn partneriaeth ym maes tai

Lefel yr uned:	4
Gwerth credyd yr uned:	6
Cyfeirnod yr uned:	Y/507/9257
Cyfeirnod CIH AO:	H408
Statws yr uned:	Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw edrych ar sut mae gweithio mewn partneriaeth yn digwydd ac yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau tai, a gwasanaethau cysylltiedig, yn llwyddiannus. Mae hefyd yn edrych ar y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall pam mae gweithio mewn partneriaeth yn bwysig.	1.1 Crynhoi'r cyd-destun polisi ehangach sy'n sbarduno gweithio mewn partneriaeth mewn cyd-destun tai. 1.2 Crynhoi rôl gweithio mewn partneriaeth o ran darparu cyngor ac arweiniad arbenigol mewn cyd-destun tai.
2. Deall yr amrywiol ffyrdd y gellir gweithio mewn partneriaeth ym maes tai.	2.1 Esbonio'r amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, o rwydweithio i fentrau ar y cyd. 2.2 Gwerthuso dwy enghraifft o weithio mewn partneriaeth mewn cyd-destun tai. 2.3 Edrych yn feirniadol ar rôl mentrau tai sydd dan arweiniad asiantaethau eraill.
3. Deall y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth.	3.1 Crynhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gweithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth.



Sgiliau ymchwil ar gyfer tai

Lefel yr uned:	4
Gwerth credyd yr uned:	6
Cyfeirnod yr uned:	D/507/9258
Cyfeirnod CIH AO:	H409
Statws yr uned:	Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Nod yr uned yw cyflwyno dysgwyr i egwyddorion dulliau ymchwil gwyddor cymdeithas ar gyfer maes tai.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall pam mae ymchwil yn bwysig ar gyfer cynllunio tai a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai.	1.1 Esbonio pam mae ymchwil yn bwysig ar gyfer cynllunio a gwerthuso tai a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai.
2. Deall gwahanol ddulliau ymchwil a moeseg ymchwil.	2.1 Esbonio'r gwahaniaeth rhwng data ymchwil sylfaenol ac ymchwil eilaidd. 2.2 Gwerthuso manteision ac anfanteision pob un. 2.3 Esbonio dulliau ymchwil ansoddol a meintiol, a'u defnydd. 2.4 Trafod yr ystyriaethau moesegol a diogelu data sy'n gysylltiedig â gwahanol ddulliau ymchwil.
3. Gallu cynllunio astudiaeth ymchwil.	3.1 Datblygu cynllun ar gyfer astudiaeth ymchwil sy'n cynnwys: • nodau ac amcanion, a'r canlyniadau disgwyliedig, • dadansoddiad o ystyriaethau moesegol yr astudiaeth arfaethedig, • adolygiad llenyddiaeth ar y pwnc o'ch dewis, • gwerthusiad o effeithiolrwydd y dulliau ymchwil o'ch dewis.

Strategaethau ar gyfer hybu lles a byw'n annibynnol



**Chartered
Institute of
Housing**
Awarding
organisation

Lefel yr uned: 4
Gwerth credyd yr uned: 6
Cyfeirnod yr uned: H/507/9259
Cyfeirnod CIH AO: H413
Statws yr uned: Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Bydd yr uned yn edrych ar strategaethau i hybu byw'n annibynnol ac i ddiogelu unigolion. Bydd hefyd yn edrych ar yr adnoddau dylunio technolegol a thai sydd ar gael i gefnogi'r strategaethau hyn.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall cyd-destun polisi byw'n annibynnol a sut mae'n cyfrannu at integreiddio iechyd a gofal.	1.1 Crynhoi'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi ar gyfer tai gyda chymorth a gofal. 1.2 Trafod y strwythurau cyllido sy'n sail i fyw'n annibynnol a lles.
2. Deall strategaethau lleol ar gyfer iechyd a lles.	2.1 Dadansoddi sut mae blaenoriaethau lleol (tai, iechyd a gofal) yn cael eu datblygu. 2.2 Gwerthuso sut mae strategaethau lleol yn hybu grym, annibyniaeth a dewis. 2.3 Gwerthuso sut mae strategaethau lleol yn effeithio ar ymarfer sefydliadol.
3. Deall gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer diogelu unigolion sydd ag anghenion gofal a chymorth.	3.1 Gwerthuso gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer diogelu unigolion sydd ag anghenion gofal a chymorth.
4. Deall sut mae technoleg, arferion rheoli tai a dylunio yn gallu galluogi byw'n annibynnol er mwyn sicrhau iechyd a lles.	4.1 Gwerthuso rôl technoleg o ran darparu gwasanaethau cymorth tai. 4.2 Gwerthuso sut mae arferion rheoli tai yn cefnogi byw'n annibynnol a lles. 4.3 Crynhoi rôl dylunio tai i gefnogi gwahanol grwpiau o gleientiaid i gynnal lles a byw'n annibynnol.



Y fframwaith ar gyfer cynllunio a datblygu

Lefel yr uned: 4
Gwerth credyd yr uned: 6
Cyfeirnod yr uned: Y/507/9260
Cyfeirnod CIH AO: H410
Statws yr uned: Dewisol

Pwrpas/nod yr uned

Mae'r uned yn rhoi gwybodaeth i'r dysgwr am y cyd-destun cymdeithasol, amgylcheddol a gwleidyddol ar gyfer cynllunio a datblygu tai.

Canlyniadau dysgu	Meini prawf asesu
1. Deall y broses gynllunio a datblygu ar gyfer datblygu cartrefi.	1.1 Dadansoddi'r cyd-destun cymdeithasol, amgylcheddol, gwleidyddol a chyfreithiol ar gyfer cynllunio a datblygu / ailddatblygu cartrefi presennol a newydd. 1.2 Esbonio'r broses o wneud ceisiadau cynllunio a datblygu drwy gysyniad, dylunio ac adeiladu yng nghyswllt tai. 1.3 Crynhoi cyfranogwyr allweddol y broses. 1.4 Esbonio'r broses cynllunio strategol yng nghyswllt tai.
2. Deall y cyfleoedd cyllido a buddsoddi ar gyfer datblygu / ailddatblygu cartrefi presennol a newydd.	2.1. Crynhoi'r cyfleoedd cyllido a buddsoddi ar gyfer datblygu / ailddatblygu cartrefi presennol a newydd. 2.2. Gwerthuso'r cyfleoedd sydd gan sefydliadau tai i gynhyrchu incwm ar gyfer y broses ddatblygu.
3. Deall y fframweithiau rheoleiddio, iechyd a diogelwch ac ansawdd ar gyfer datblygu / ailddatblygu cartrefi presennol a newydd.	3.1 Crynhoi'r fframweithiau rheoleiddiol ac ansawdd ar gyfer datblygu / ailddatblygu cartrefi presennol a newydd. 3.2 Esbonio'r fframwaith iechyd a diogelwch ar gyfer datblygu / ailddatblygu cartrefi presennol a newydd.



Mapio i ddisgwyliadau aelodau siartredig

Disgwyliadau'r diwrnod cyntaf gan Aelod Siartredig	Uned cymhwyster CIH
Gallu...arwain, darparu gweledigaeth ac arloesi wrth gyflawni amcanion ar gyfer sefydliad.	Lefel 5 Arwain a rheoli ym maes tai
Gallu...cyfathrebu'n effeithiol â chwsmeriaid a chydweithwyr ym maes tai. (yn llwyr)	Lefel 5 Rheoli perthnasoedd ym maes tai
Gallu...dysgu beth yw dymuniadau cwsmeriaid tai.	
Gallu...siarad â'r rhai sy'n darparu ac yn dylunio gwasanaethau cysylltiedig sy'n effeithio ar dai, yn ogystal â'u deall a gweithio gyda nhw.	
Gallu...helpu cwsmeriaid tai i gael gafael ar gartrefi a'r adnoddau i gynnal a chadw eu cartrefi.	
Gwybod...pam mae tai da yn hanfodol i iechyd a lles cymuned.	
Dangos...penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail gwybodaeth deg, gywir a phriodol.	Lefel 5 Arferion moesegol ym maes tai
Dangos...didueddrwydd wrth ddarparu gwasanaeth.	
Dangos...cadernid, gonestrwydd ac uniondeb.	
Dangos...nad ydych yn gwahaniaethu yn eich agwedd at ddarparu gwasanaeth.	Wedi'i wreiddio ym mhob uned briodol
Dangos...datblygiad proffesiynol parhaus drwy gynllun datblygu personol i wella, cynnal a dysgu sgiliau a gwybodaeth newydd.	Lefel 4 Sgiliau ymarfer proffesiynol ar gyfer maes tai
Dangos...gweithio yn unol â chod ymddygiad proffesiynol CIH.	
Gwybod...sut mae tai'n cael eu darparu, eu rheoleiddio a'u hariannu drwy'r sefydliadau hynny a sefydlwyd i gyflawni hyn.	Lefel 5 Cynllunio strategol a busnes ar gyfer sefydliadau tai
Dangos...cred yn yr amcanion o ddarparu cartrefi fforddiadwy o ansawdd da i bawb mewn angen.	
Gwybod...y cyd-destun cymdeithasol, cyfreithiol, diwylliannol, economaidd a gwleidyddol ar gyfer darparu a monitro gwasanaethau tai.	Lefel 5 Cyd-destun tai
Gwybod...cefndir y ddarpariaeth a mynediad at dai yn y DU.	

Ystyrir bod yr unedau canlynol wedi'u heithrio rhag cyflawniad unedau penodol o'r cymhwyster hwn oherwydd eu bod yn bodloni o leiaf 80% o'r meini prawf asesu. Pwrpas hyn yw cefnogi'r broses bontio ac osgoi'r baich diangen o ddyblygu dysgu, gan gynnal dilysrwydd y cymhwyster ar yr un pryd.

Teitl yr uned	Cyferwerthedd/esemptiad
Cyllid ar gyfer tai L/507/9241	Economeg tai a chyllid tai J/506/6276 a K/503/5098
Cyfraith tai R/507/9161	Cyfraith tai Y/506/6279 a M/503/5099
Polisi tai Y/507/9162	Polisi tai A/506/6274 ac R/503/1174
Anghenion tai, y galw a'r cyflenwad J/507/9254	Anghenion tai, y galw a'r cyflenwad L/503/1173 a M/506/6269
Gwasanaethau rheoli tai A/507/9266	Gwasanaethau rheoli tai H/503/1180
Rheoli pobl a newid R/507/9256	Rheoli pobl D/503/1176
Gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes tai F/507/9172	Gofal cwsmeriaid mewn cyd-destun tai K/503/5246
Cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes tai F/507/9253	Cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes tai L/503/5238
Gweithio mewn partneriaeth ym maes tai Y/507/9257	Gweithio mewn partneriaeth ym maes tai R/503/5239
Sgiliau ymchwil ar gyfer tai D/507/9258	Sgiliau ymchwil ar gyfer tai T/503/5637
Sgiliau ymarfer proffesiynol ar gyfer maes tai F/507/9169	Sgiliau ymarfer proffesiynol ar gyfer maes tai R/503/5242
Adeiladau, cymunedau a'r amgylchedd M/507/9250	Adeiladau, cymunedau a'r amgylchedd K/503/1679
Y fframwaith ar gyfer cynllunio a datblygu Y/507/9260	Y fframwaith ar gyfer cynllunio a datblygu H/503/1678
Cyfranogiad preswylwyr mewn gwasanaethau tai T/507/9251	Cyfranogiad cwsmeriaid mewn gwasanaethau lleol M/503/1179
Strategaethau ar gyfer hybu lles a byw'n annibynnol H/507/9259	Strategaethau ar gyfer hybu byw'n annibynnol K/503/1178
Darparu gwasanaethau cymorth tai ar gyfer iechyd a lles L/507/9255	Gwasanaethau cymorth tai ar gyfer byw'n annibynnol H/503/1177

- Dyma enghraifft o sut gallai'r cymhwyster gysylltu â'r Safon Prentisiaeth: Rheoli Tai / Eiddo Uwch, Lloegr.
- Nid yw'r cysylltiadau a ddangosir yn hollgynhwysfawr nac yn derfynol, oherwydd mewn rhai achosion bydd yn dibynnu ar yr hyn a ddysgir fel rhan o'r cwrs, ac i ba ddyfnder. Er enghraifft, gall dysgu sgiliau ymarfer proffesiynol ar gyfer maes tai roi cyfleoedd i ddysgwyr archwilio'r sgiliau a amlinellir fel rhan o'r safon prentisiaeth. Os yw'r cymhwyster yn cael ei ddefnyddio fel rhan o brentisiaeth, bydd gofyn i'r darparwr gwblhau ei waith mapio manwl ei hun.
- Mae'n ofynnol i'r cyflogwr a'r darparwr hyfforddiant sy'n gyfrifol am gyflawni'r safon prentisiaeth sicrhau bod cynnwys eu cwrs yn rhoi sylw i'r safon prentisiaeth, ac yn paratoi dysgwyr ar gyfer yr asesiad pwynt terfyn.

Gwybodaeth	Deddfwriaeth a rheoleiddio	Gwybodaeth gefndir am y sefydliad	Asedau	Cwsmeriaid a rhanddeiliaid	Cyd-destun	Ystod gwasanaethau	Polisiâu sefydliadol
Cyllid ar gyfer tai		✓			✓		✓
Cyfraith tai	✓				✓		
Polisi tai	✓				✓		
Sgiliau ymarfer proffesiynol ar gyfer maes tai							
Adeiladau, cymunedau a'r amgylchedd	✓		✓				
Gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes tai		✓		✓			✓
Cyfranogiad preswylwyr mewn gwasanaethau tai		✓		✓		✓	
Cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes tai		✓		✓		✓	✓
Gwasanaethau rheoli tai			✓	✓		✓	✓
Anghenion tai, y galw a'r cyflenwad		✓	✓		✓		
Darparu gwasanaethau cymorth tai ar gyfer iechyd a lles		✓		✓		✓	
Rheoli pobl a newid		✓					✓
Gweithio mewn partneriaeth ym maes tai				✓		✓	
Sgiliau ymchwil ar gyfer tai							
Strategaethau ar gyfer hybu lles a byw'n annibynnol	✓			✓	✓	✓	✓
Y fframwaith ar gyfer cynllunio a datblygu	✓		✓				✓

Sgiliau	Gwasanaeth i gwsmeriaid	Cyfathrebu	Cydweithio	Ymateb i fregusrwydd	Casglu a rhannu gwybodaeth	Dylanwadu a thrafod	Rheoli pobl	Rheoli prosiectau a pherfformiad	Gwneud penderfyniadau a blaenoriaethu	Offer a chyfarpar
Cyllid ar gyfer tai									✓	
Cyfraith tai										
Polisi tai										
Sgiliau ymarfer proffesiynol ar gyfer maes tai	✓									
Adeiladau, cymunedau a'r amgylchedd										
Gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes tai	✓									
Cyfranogiad preswylwyr mewn gwasanaethau tai										
Cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes tai										
Gwasanaethau rheoli tai										
Anghenion tai, y galw a'r cyflenwad										
Darparu gwasanaethau cymorth tai ar gyfer iechyd a lles				✓						
Rheoli pobl a newid			✓				✓			
Gweithio mewn partneriaeth ym maes tai	✓	✓				✓				
Sgiliau ymchwil ar gyfer tai					✓					✓
Strategaethau ar gyfer hybu lles a byw'n annibynnol										
Y fframwaith ar gyfer cynllunio a datblygu										

Ymddygiadau	Ymatebol	Ymddiriedaeth a dibynadwyedd	Gallu i addasu	Hunanysgogiad	Cadernid	Arweinyddiaeth	Datblygiad personol	Gofal cwsmeriaid	Gwaith tîm
Cyllid ar gyfer tai									
Cyfraith tai									
Polisi tai									
Sgiliau ymarfer proffesiynol ar gyfer maes tai		✓					✓		
Adeiladau, cymunedau a'r amgylchedd									
Gwasanaeth i gwsmeriaid ym maes tai									
Cyfranogiad preswylwyr mewn gwasanaethau tai									
Cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes tai									
Gwasanaethau rheoli tai									
Anghenion tai, y galw a'r cyflenwad									
Darparu gwasanaethau cymorth tai ar gyfer iechyd a lles									
Rheoli pobl a newid									✓
Gweithio mewn partneriaeth ym maes tai									
Sgiliau ymchwil ar gyfer tai									
Strategaethau ar gyfer hybu lles a byw'n annibynnol									
Y fframwaith ar gyfer cynllunio a datblygu									